



Llyr Gruffydd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
SeneddCyllid@cynulliad.cymru

30 Medi 2019

Annwyl Llyr,

Diolch ichi am fy ngwahodd i roi tystiolaeth i'ch Pwyllgor ar 25 Medi. Roeddwn i'n croesawu'r cyfle i drafod gyda'r aelodau welliannau arfaethedig Llywodraeth Cymru i Fil Senedd ac Etholiadau (Cymru) sy'n darparu ar gyfer trefniadau atebolrwydd a chyllido i'r Comisiwn Etholiadol, ac sy'n adlewyrchu'r ffaith bod etholiadau llywodraeth leol ac etholiadau'r Cynulliad yng Nghymru wedi eu datganoli.

Rwy'n gwybod y byddai'n well gan y Pwyllgor gyflwyno cynnig ar y cyd, a fyddai wedi ei gytuno â'r Llywydd, na'n bod yn cyflwyno cynigion ar wahân ichi. Rwy'n awyddus i'ch sicrhau y byddaf yn parhau â'm deialog â'r Llywydd cyn i drafodion Cyfnod Dau fynd rhagddynt, er mwyn gweld a yw'n bosibl cyrraedd cytundeb o'r fath.

Rwy'n ddiolchgar ichi am eich adroddiad ar y materion hyn, a'ch bod wedi ei gynhyrchu mor fuan ar ôl y cyfarfod.

Gweler fy ymateb i'ch argymhellion isod:

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Cwnsler Cyffredinol yn ymrwymo i sicrhau na fydd y drefn ar gyfer penderfynu ar werth y trosglwyddiad i Gronfa Gyfunol Cymru er mwyn talu cost cyllido gwaith y Comisiwn Etholiadol mewn perthynas ag etholiadau a refferenda datganoledig yng Nghymru yn arwain at drosglwyddo arian annigonol i Gymru.	Gan fod trosglwyddo cyllid yn ddibynnol ar negodiadau rhynglywodraethol nad ydynt o dan reolaeth Llywodraeth Cymru, ni allaf ddarparu'r ymrwymiad hwn. Fodd bynnag, gallaf ymrwymo i sicrhau y bydd Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â hyn fel un o'i hamcanion polisi.
Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Cwnsler Cyffredinol yn rhoi esboniad i'r Cynulliad pam mae o'r farn nad yw opsiwn 3 (fel y'i nodwyd yn ei lythyr ar 20 Medi 2019) i ariannu'r	Nid oedd yn fwriad gennyf roi'r argraff nad yw opsiwn 3, sef yr opsiwn a ffeifrif gan y Llywydd a'r Pwyllgor, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
PSCGBM@gov.wales / YPCCGB@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Comisiwn Etholiadol yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Opsiwn 3 yw'r opsiwn a ffefrir gan y Pwyllgor, a bydd angen i'r Cwnsler Cyffredinol ddarbwylo'r Pwyllgor bod opsiwn 3 y tu allan i gymhwysedd a dyna pam nad yw'n ymarferol.

Yr opsiwn sy'n codi materion ynglŷn â chymhwysedd deddfwriaethol yw opsiwn 1: ychwanegu'r Comisiwn Etholiadol at y rhestr o bersonau perthnasol o dan adran 124(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Ni all ddarpariaeth yn un o Ddeddfau'r Cynulliad addasu adran 124 o Ddeddf Llywodraeth Cymru (gweler Paragraff 7 yn Atodlen 7B o Ddeddf Llywodraeth Cymru).

Opsiwn 3 fyddai'r ffordd briodol ymlaen pe bai Comisiwn Etholiadol ar wahân i Gymru yn cael ei greu. Byddai darparu ar gyfer corff a fyddai'n cael ei gyllido'n uniongyrchol gan ddwy Gronfa Gyfunol yn ddull gweithredu newydd nad oes cynsail iddo hyd y gwyddom ni. Byddai'n rhaid cyflwyno gofynion cyfrifyddu ac archwilio ar gyfer cyllid Cronfa Gyfunol Cymru sy'n debyg i'r gofynion y mae'r Comisiwn Etholiadol yn eu gweithredu ar gyfer cyllid Cronfa Gyfunol y DU. Byddai hynny'n golygu y byddai'n rhaid paratoi datganiadau ariannol sydd wedi eu harchwilio ar wahân ar gyfer y Comisiwn Etholiadol yng Nghymru a gwneud newidiadau i brosesau amcangyfrif Pwyllgor y Llefarydd. Rydym wedi seilio'r opsiwn a ffefrir gennym ar yr egwyddor y dylai'r Comisiwn Etholiadol barhau i weithredu fel un o gyrff y DU gyda chyn lleied â phosibl o effaith weithredol yn sgil y newidiadau deddfwriaethol, ond ar yr un pryd byddai'n atebol i Lywodraeth Cymru ac yn darparu cyllid ganddi, sef ein prif amcan polisi.

Hefyd, nid wyf yn cytuno â chasgliadau 3 a 4 yn eich adroddiad. Nid wyf yn cytuno â chi ynghylch yr amseriad a'r materion ymarferol, yn ogystal â'r cwestiwn ynghylch cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, yr ydych yn nodi eu bod yn faterion pwysig. Fodd bynnag, gan y gellir rhoi sylw i'r rhain drwy newidiadau i weithdrefnau a phrosesau y tu allan i ddarpariaethau deddfwriaethol, nid wyf o'r farn eu bod yn rhwystrau i weithredu'r opsiwn a ffefrir gennyf.

Cyn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar 1 Hydref ynglŷn â'r cynnig ariannol ar gyfer y Bil, fel yr addawyd, rwyf wedi nodi isod y costau a amcangyfrifwyd, sy'n gysylltiedig â gwelliannau'r Comisiwn Etholiadol y rhennais fersiwn ddrafft ohonynt â chi ac sydd wedi eu cyflwyno gennyf heddiw.

Mae fy swyddogion wedi gweithio'n agos gyda chydweithwyr Comisiwn y Cynulliad a'r Comisiwn Etholiadol wrth baratoi'r amcangyfrifon hyn, ac rwy'n ddiolchgar iawn i'r cydweithwyr hynny.

Costau ar gyfer corff perthnasol y Senedd

Rydym wedi paratoi'r amcangyfrifon ar gyfer corff perthnasol y Senedd yn seiliedig ar y rhagdybiaethau y cytunwyd arnynt, sef:

- y byddai corff perthnasol y Senedd yn cyfarfod ddwywaith neu dair y flwyddyn;
- na fyddai amser yr aelodau yn cael ei gostio ar y sail na fyddai unrhyw newid i gyflogau, adnoddau, na chostau'r Aelodau;
- y byddai corff perthnasol y Senedd yn cyfarfod am 2 – 3 awr y flwyddyn (10-15 o oriau dros gyfnod o bum mlynedd), ar y sail ganlynol:
 - cyfanswm o ~ 1 awr i holi'r Comisiwn Etholiadol (mewn perthynas â'i gyllideb, ac efallai ei adroddiad archwilio);
 - cyfanswm o ~ 1 awr i nodi dogfennau ac i gymeradwyo adroddiad blynyddol y Pwyllgor;
 - o bosibl hyd at awr ychwanegol i ymdrin ag unrhyw faterion eraill a allai godi (ystyried cyllideb atodol, gwaith gwerth am arian yn ôl disgrisiwn, etc.).

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Bil yn darparu amcangyfrifon yn seiliedig ar 12 o oriau pwyllgor dros gyfnod o bum mlynedd, sy'n annhebygol o fod yn wahanol iawn i'r costau ar gyfer y 10-15 o oriau a rhagdybiwyd uchod. Felly, yr un gost yw ein hamcangyfrif ar gyfer corff perthnasol y Senedd a fydd yn ymgymryd â'r dyletswyddau a rhagnodir yn ein gwelliannau â'r gost yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol: £39,200 dros gyfnod o bum mlynedd (sef £7,840 y flwyddyn).

Costau gweinyddu Comisiwn y Cynulliad

Os bydd cyllid y Comisiwn Etholiadol wedi ei gynnwys yng nghyllideb Comisiwn y Cynulliad, bydd goblygiadau staffio ar gyfer Comisiwn y Cynulliad o ran gweinyddu cyllid y Comisiwn Etholiadol.

Mae'r amcangyfrifon cychwynnol o'r adnodd staffio, y bydd ei angen i gyflawni gwaith sicrwydd a chraffu i gefnogi Swyddog Cyfrifyddu Comisiwn y Cynulliad, yn awgrymu y bydd angen cyflawni swydd sy'n cyfateb i SEO yn gweithio rhwng 0.5 fte ac 1 fte y flwyddyn ar draws y gwasanaethau hynny y bydd y gwaith hwn yn effeithio arnynt. Bydd cost y gwaith hwn yn gost barhaus o £35,000 i £70,000 y flwyddyn (hy £175,000-£350,000 dros gyfnod o 5 mlynedd). Hefyd, mae'n debygol y bydd nifer o gostau cychwynnol cyfyngedig, na fyddant yn gostau cylchol, mewn perthynas â sefydlu'r swyddogaeth hon, ond nid yw'n bosibl meintio'r rhain ar hyn o bryd.

Mae goblygiadau'r adnoddau y bydd eu hangen ar Gomisiwn y Cynulliad ar gyfer gwneud newidiadau i brosesau yn dibynnu ar y penderfyniadau terfynol a wneir gan y Cynulliad, o ran deddfwriaeth sylfaenol a hefyd o ran trefniadau mewn Rheolau Sefydlog. Mae'n debygol y byddai angen i staff, y Pwyllgor Busnes, a'r Cynulliad i gyd neilltuo amser ar gyfer adolygu ac addasu Rheolau Sefydlog ac arferion gweithio. Fodd bynnag, o safbwynt ymarferol, byddai gweithgarwch o'r fath yn rhan o waith arferol Comisiwn y Cynulliad, gan fod hwnnw'n adolygu Rheolau Sefydlog ac arferion gweithio'r Cynulliad yn rheolaidd. Felly, at ddibenion yr asesiad hwn, ystyrir mai £0 fyddai'r gost hon.

Costau'r Comisiwn Etholiadol

Roedd yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi'r costau i'r Comisiwn Etholiadol ar gyfer cyfrannu at waith craffu'r Cynulliad. Unwaith eto, roedd y costau hynny'n seiliedig ar 12 o oriau pwyllgor dros gyfnod o bum mlynedd. Gan fod hyn o fewn yr un ystod â'r rhagdybiaethau yr ydym wedi eu gwneud ar gyfer yr amser y bydd corff perthnasol y Senedd yn ei gymryd i gyflawni'r dyletswyddau a nodir yn ein gwelliannau, rydym yn fodlon amcangyfrif mai'r un fyddai cost yr amser y byddai angen i staff y Comisiwn Etholiadol ei neilltuo dros gyfnod o bum mlynedd ag y nodir yn yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol: £19,600 (sef £3,920 y flwyddyn).

Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi dweud yn ystod proses graffu y bydd angen iddo gael adnoddau ar gyfer gweinyddu'r trefniadau craffu newydd. Mae'n debygol y bydd y costau hyn yn rhan o gyllideb y Comisiwn Etholiadol ar gyfer Cymru yn y dyfodol, ac y byddant yn dibynnu ar y dull dyrannu costau y cytunir arno yn y cytundeb rhyng-sefydliadol. Nid yw'n bosibl meintio'r costau hyn ar hyn o bryd.

Costau ar gyfer Llywodraeth Cymru

Mae ein gwelliannau'n rhoi dyletswydd ar gorff perthnasol y Seneddol i ymgynghori â Gweinidogion Cymru ar amcangyfrifon cyllideb y Comisiwn Etholiadol, yn ogystal â dyletswyddau ar y Comisiwn Etholiadol i ymgynghori â Gweinidogion Cymru ynghylch codau ymarfer ar gyfer presenoldeb sylwedyddion mewn etholiadau datganoledig yng Nghymru a safonau perfformiad ar gyfer etholiadau a refferenda datganoledig yng Nghymru. Bydd angen i staff neilltuo amser ar gyfer darparu cyngor i Weinidogion Cymru ynghylch y materion hyn. Fodd bynnag, o safbwynt ymarferol, byddai gweithgarwch o'r fath yn rhan o waith arferol Llywodraeth Cymru. Felly, at ddibenion yr aseiad hwn, ystyrir mai £0 yw'r gost hon.

Crynodeb


Er mwyn cyfeirio atynt yn hawdd, mae'r costau a ddisgrifir uchod wedi eu nodi yn y tabl isod:

<i>Sefydliad</i>	<i>Math o gostau</i>	<i>Costau untro</i>	<i>Costau cylchol blynyddol</i>	<i>Costau dros gyfnod o bum mlynedd</i>
Comisiwn y Cynulliad	Corff perthnasol y Senedd	£0	£7,840	£39,200
Comisiwn y Cynulliad	Gweinyddu mewnol	Ddim yn gwybod	£35,000 i £75,000	£175,000 i £350,000
Comisiwn y Cynulliad	Newidiadau i weithdrefnau	£0	£0	£0
Y Comisiwn Etholiadol	Cydweithio â chorff perthnasol y Senedd	£0	£3,920	£19,600
Y Comisiwn Etholiadol	Gweinyddu mewnol	£0	Ddim yn gwybod	Ddim yn gwybod
Llywodraeth Cymru	Cyngor i Weinidogion	£0	£0	£0
CYFANSYMAU:			£46,760 i £86,760	£233,800 i £408,800

Fel y gwyddoch, mae'r Comisiwn Etholiadol wedi amcangyfrif y byddai costau blynyddol ei waith gweinyddu mewn perthynas ag etholiadau a refferenda yng Nghymru yn amrywio rhwng £500,000 ac £1.6 miliwn yn ystod y cyfnod 2018/19 – 2022/23.

Rwy'n gobeithio y bydd yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol. Rwyf wedi gofyn i gopi o'r llythyr hwn fod ar gael i bob Aelod cyn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar y cynnig ariannol. Rwyf hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn at y Llywydd, at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, ac at Bennaeth Comisiwn Etholiadol Cymru.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, consisting of a circular mark followed by a series of wavy lines and a short horizontal stroke at the end.

Jeremy Miles AM

Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit
Counsel General and Brexit Minister